



# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

## Cyflwyniad

Gellir plannu coed am sawl rheswm a dylid ystyried cydbwysedd yr amcanion hyn yn ofalus wrth gynllunio coetiroedd newydd er mwyn dewis y systemau rheoli a'r rhywogaethau gorau. Mae'n bwysig ystyried yr holl amcanion pwysig; cynhyrchu pren, tirwedd, cadwraeth, chwaraeon, hamdden, lloches a mân gynnyrch. Rhaid gwneud hyn oherwydd byddai canolbwyntio ar un amcan yn unig yn golygu hwyrach y bydd cyfleoedd eraill yn cael eu colli a allai ddod yn bwysicach wrth i'r coetir aeddfedu. Yn ôl pob tebyg, bydd y dewisiadau a wneir wrth gynllunio yn cael cryn effaith ar sut caiff y coetir ei ddefnyddio, pa mor atyniadol ydyw, a'r elw bydd yn gallu ei gynhyrchu.

## 1. Paratoi'r safle plannu

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o osod coed, hwyrach y bydd angen paratoi'r tir cyn plannu er mwyn gwella cyflwr y pridd, atal chwyn neu roi safle plannu addas. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys rhyw fath o amaethu, er gallai rheoli chwyn fod yn addas. Gall gwaith paratoi'r tir gynnwys plannu cynnyrch atal chwyn ymlaen llaw, trin y pridd er mwyn ei ddraenio, torri cletiroedd ac er mwyn amaethu. Cydnabyddir yn gyffredinol y dylid tarfu cyn lleied â phosibl ar y pridd wrth baratoi'r tir.

Mae amseru gwaith paratoi'r tir yn hollbwysig er mwyn manteisio'n llawn ar fanteision y coed sy'n cael eu plannu yn ogystal â lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Cofiwch:

- Dylech baratoi'r tir yn ystod cyfnodau sychach; gellir difrodi strwythur y pridd mewn tywydd gwlyb iawn yn ogystal ag achosi llawer iawn o ddŵr i lifo ac erydiad.
- Gellir difrodi strwythur y pridd mewn tywydd sych iawn hefyd – cyfnodau o sychder
- Gellir ystyried amaethu safleoedd a allai gynhyrchu chwyn yn yr hydref. Bydd hyn yn golygu bod angen disodli llai o chwyn cyn plannu
- Yn gyffredinol, arhoswch 2 fis cyn plannu i adael i'r gwaith amaethu sefydlogi.

## 2. Diogelu

Bydd angen i chi gynllunio sut i gadw cwningod, ceirw, ysgyfarnogod a llygod dŵr draw o'ch coed yn ogystal ag osgoi difrod o'r stoc. Os na fyddwch yn diogelu coed sydd wedi'u plannu, hyd yn oed dros nos, mae'n debygol o achosi difrod. Felly, bydd angen i'ch ffensys a'ch llochesi fod ar y safleoedd cyn plannu. O ran pa un ai ffensys neu lochesi coed sydd orau, ystyriwch y manteision a'r anfanteision a chostau cymharol y prosiect.

## Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

Mae amrywiaeth o lochesi coed ar gael i'w diogelu yn erbyn ysgyfarnogod, cwingod a llygod dŵr.

<b>Llochesi coed - manteision</b>	<b>Llochesi coed - anfanteision</b>
Gallu bod yn rhad ar gyfer manau bychain	Gallent gael eu taro neu eu chwythu drosodd
Gallwch ddod o hyd i'r coed bob amser	Gall coed ifanc fod yn llai sefydlog ar safleoedd agored
Cadw chwynladdwyr i ffwrdd	Maent yn atal llwyni rhag tyfu'n isel
Hawdd i'w gosod	Rhaid eu symud
Diogelu coed unigol	Yn gallu bod yn ddrud ar gyfer plannu mewn manau caeedig
Yn helpu i leihau straen ar blanhigion	
Mae'r coed yn tyfu'n gyflymach ar y dechrau	

Gellir gosod gwahanol fathau o ffensys i ddiogelu yn erbyn gwartheg, ceffylau, defaid a cheirw. Mae angen parth sy'n gwahanu oherwydd gall anifeiliaid gyrraedd dros y ffensys a phori'r coed. Mae Atodiad 1 yn cynnwys Manyleb Ffensio Gofynnol Glastir.

<b>Ffensys - manteision</b>	<b>Ffensys - anfanteision</b>
Gallu bod yn rhatach mewn manau mawr	Angen cadw llygad arnynt yn rheolaidd
Yn gadael i lwyni dyfu	Os ydynt yn torri neu mewn eira trwm, mae pob coeden o dan fygythiad
Yn cadw anifeiliaid draw	Gall gyfyngu ar fywyd gwylt
Mwy parhaol	

Gall gwiwerod llwyd fod yn fygythiad difrifol wrth sefydlu coed a sicrhau eu bod yn goroesi yn yr hirdymor. Os oes coed neu goetiroedd unrhyw le gerllaw eich coed newydd, gall gwiwerod fod yn fygythiad. Gall cnoi neu deneuo'r rhisgl wanhau rhannau uchaf y goeden neu ladd y goeden gyfan os ydynt yn ymosod ger y sylfaen. Mae rhai rhywogaethau yn fwy agored i niwed ac os oes llawer o wiwerod yn lleol, bydd angen i chi ddewis eich rhywogaethau yn ofalus. Gellir eu rheoli drwy saethu, eu trapio neu eu gwenwyno (mae hyn wedi'i gyfyngu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru).

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

## 2. Dewis rhywogaethau o goed

Dylech ystyried yn ofalus wrth ddewis rhywogaethau cynhenid neu gyflwyno rhai eraill. Rhaid dewis y rhywogaethau sy'n cyd-fynd orau ag amodau'r safle ac amcanion y coetir. Rhaid cadw mewn cof y bydd yr amgylchedd lleol yn debygol o newid dros y degawdau nesaf. Felly, dylid cael gafael ar hadau o blanhigfeydd lle mae'r hadau wedi'u casglu mewn mannau tebyg i'r rhai lle rydych yn bwriadu eu plannu.

Mae **'Arweiniad i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau coed yng Nghymru'** yn rhoi cyngor am wahanol rywogaethau ac mae ar gael yn [www.forestry.gov.uk/glastirwoodland](http://www.forestry.gov.uk/glastirwoodland)

## 4. Dewis planhigion

Planhigion o safon sy'n rhoi'r canlyniadau gorau. Peidiwch â thorri corneli ac arbed ychydig geiniogau gan na fydd hynny'n talu ar ei ganfed yn y pen draw. Os nad ydych yn fodlon ar y planhigion, peidiwch â'u plannu. Cysylltwch â'r blanhigfa yn ddiymdroi i ddweud wrthynt beth sydd o'i le arnynt yn eich barn chi a gofynnwch am rai yn eu lle. Bydd planhigfeydd sydd am gadw'u henw da yn barod i'ch helpu. Gall y tabl yn Atodiad 2 eich cynorthwyo i drefnu trefn eich coed.

Tyfir coed ifanc mewn planhigfeydd drwy ddefnyddio sawl techneg wahanol. Y prif wahaniaeth yw a yw'r goeden wedi'i thyfu yn un o welyau'r blanhigfa a'i gwerthu gyda gwreiddiau moel neu mewn cynhwysydd bach.

Wrth blannu, mae unrhyw ddifrod i'r gwreiddiau yn ffactor allweddol yng ngoroesiad y goeden. Mae coed ifanc yn haws i'w trin a'u plannu, felly maent yn tueddu i beidio â chael eu difrodi cymaint ac maent yn aml yn tyfu'n gyflymach na phlanhigion mwy. Dyma pam y dylech gael gafael ar blanhigion maint coedwigaeth yn hytrach nag impiau neu rai safonol. Yn ddelfrydol, dylent fod rhwng 25 a 45 cm, gyda dim byd dros 60 cm. Mewn mannau agored, bydd yn haws sefydlu'r rhain os ydynt yn deneuach na phlanhigion hir a heglog. Dylai fod gan y planhigion system wreiddiau ddatblygedig hefyd gyda digonedd o wreiddiau ffibrog bychain.

Bydd planhigion coedwigaeth o safon:

- Ar gael mewn planhigfa fasnachol ag enw da
- Yn flwydd, dwyflwydd neu efallai'n dair oed
- Yn llaith a heb gael eu niweidio
- Yn cynnwys digonedd o wreiddiau ffibrog bychain
- Yn edrych yn gadarn ac yn gymesur
- Yn cynnwys lliw ac arogl da os yw'n goeden conwydden

## Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd



Derwen a dyfir mewn cynhwysydd



Derwen â gwreiddiau moel

### 5. Sut i ofalu am blanhigion

Ar ôl i'r planhigion gyrraedd o'r blanhigfa, bydd angen i chi eu cadw dros dro yn ôl pob tebyg cyn eu plannu. Mae'r coed hyn yn ifanc dros ben, yn agored iawn i niwed ac maent newydd ddechrau eu bywydau fydd yn para canrif. Wrth eu derbyn, agorwch nifer o fagiau ar hap ac edrychwch ar faint, ansawdd a nifer y coed. I weld a yw coeden yn fyw ai peidio, torrwrch ddarn o risgl oddi ar y brif goes. Os yw'n fyw, dylai fod lliw gwyrdd/gwyn o dan y rhisgl. Os yw'n farw, bydd y lliw yn frown/melyn. Edrychwch i weld nad yw'r gwreiddiau wedi'u difrodi a bod gwreiddyn ffibrog i'w weld. Cewch adael planhigion sydd mewn cynwysyddion yn eu 'potiau' nes bydd eu hangen os ydynt yn cael eu cadw'n llaith. O ran planhigion gwreiddiau moel, mae llawer o blanhigfeydd yn defnyddio bagiau arbennig sy'n wyn ar y tu allan ac yn ddu y tu mewn i gadw'r un tymheredd. Os ydych yn bwriadu plannu cyn bo hir, (o fewn pedair wythnos), gallent aros yn eu bagiau fel arfer. I'w cadw am gyfnod hwy, bydd angen i chi dynnu'r coed allan a gorchuddio'r gwreiddiau â phridd.

Rhaid diogelu planhigion rhag:

- Cael eu trin yn ddi-hid
- Cwningod, ysgyfarnogod, da byw a cheirw
- Golau uniongyrchol yr haul

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

- Rhew
- Gwynt a drafftiau cryfion
- Sylweddau niweidiol

Cyn i'r planhigion gyrraedd, penderfynwch ble i'w rhoi.

- Dewiswch le nad yw'n rhewi
- Dewiswch le oer a chysgodol drwy gydol y dydd: mae'r tu mewn i sgubor neu o dan gysgod coed yn lleoedd da
- Cadwch hwy i ffwrdd oddi wrth olew, disel, cemegau a gwrtaith
- Bydd planhigion sydd mewn cynwysyddion yn cyrraedd mewn hambyrddau neu flychau a bydd angen digon o le ar y llawr ar gyfer y rhain
- Gofalwch nad oes gwynt neu ddrafft cryf yn amharu arnynt oherwydd gall hyn sychu'r mannau uchaf a lladd y gwreiddiau mewn munudau. Mae byrnau'n rhoi lloches da
- Cadwch anifeiliaid draw oddi wrth y planhigion. Defnyddiwch ffens dros dro neu gornel corlan ffesantod os nad yw cwingod yn gallu mynd atynt

Gofalwch amdanynt nes eu bod yn cael eu plannu

- Cariwch a gosodwch y planhigion yn ofalus. Gall eu gollwng neu eu taflu achosi colledion drud maes o law
- Hwyrach y bydd angen dyfrio planhigion mewn cynwysyddion. Felly, gwnewch hynny yn ôl yr angen gyda dŵr glân
- Peidiwch byth â gadael i fagiau o blanhigion orgynhesu. Os yw planhigion yn mynd yn gynnes, agorwch ychydig o rannau uchaf y bagiau i adael aer i mewn, ond peidiwch â gadael i wreiddiau'r planhigion fynd yn sych
- Gosodwch fagiau a choed yn unionsyth, ar wahân gyda thros 25cm rhwng pob bag
- Peidiwch â rhoi bagiau o blanhigion ar ben ei gilydd na'u pentyrru.

## 6. Pryd i blannu

Dylech blannu coed pan maent yn cysgu. Bydd plannu unrhyw goed pan maent yn tyfu yn amharu ar eu llwyddiant gan na fydd system wreiddiau'r goeden yn gallu rhoi'r dŵr y bydd ei angen ar y dail ar unwaith. Ar dir isel, mae planhigion yn cysgu rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth fel arfer. Fodd bynnag, weithiau ni ellir codi planhigion yn y blanhigfa tan fis Tachwedd ar ôl hydref mwyn. Gellir symud stoc a dyfir mewn celloedd o'r feithrinfa ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a gellir eu plannu o ddiwedd mis Medi os bu llawer o law

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

ddiwedd yr haf. Gall y tabl yn Atodiad 3 eich cynorthwyo wrth gynllunio ac amseru eich gweithgareddau yn eich coetir newydd.

## 7. Plannu


Wrth ddechrau plannu, ewch â bagiau i'r safle a'u cadw o dan gysgod. Ewch â gwerth diwrnod o blanhigion yn unig i'r safle. Mae'n hanfodol nad yw gwreiddiau'r goeden yn cael eu gadael i sychu wrth blannu. Felly, cariwch y coed mewn bag plannu i'w cadw'n llaith a thynnwch y coed o'r bag fesul un.

Plannu rhicyn sengl yw'r dechneg fwyaf cyffredin a ddefnyddir i blannu coed â gwreiddiau moel. Drwy wneud hyn yn gywir, dyma'r dull cyflymaf a symlaf o blannu'n effeithiol.

- Gall plannu gwael sy'n dinoethi'r gwreiddiau gynyddu difrod sychu ar ddechrau'r haf
- Daw'r broses gynllunio, trin a phlannu i ben ar ôl plannu'r coed yn derfynol
- Peidiwch â gadael i gyflwr y coed waethygu wrth blannu neu ar y safle plannu
- Peidiwch â thocio'r gwreiddiau wrth blannu

Peidiwch â gwthio'r gwreiddiau i mewn â rhaw

Dangosir y dechneg blannu gywir â rhaw isod




**Figure 10.1** Diagram to illustrate notch planting of trees (from Dobson and Moffat, 1993).

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

## 8. Chwynnu

Gall chwyn ladd coed ifanc drwy gystadlu â nhw am olau, maetholion a lleithder. Mae prinder dŵr yn broblem ddifrifol pan mae glaswellt yn gorchuddio'r tir. Bydd angen i chi chwynnu bob blwyddyn nes bydd y coed wedi'u sefydlu. Os yw'r coed wedi cael dechrau da, bydd angen i chi chwynnu am 3 blynedd fel arfer. Mae'n bwysig cael gwared ar y chwyn cyn i'r coed dyfu bob blwyddyn. Mae'r llun isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng chwynnu o amgylch y goeden ar y chwith a pheidio â chwynnu o amgylch y goeden ar y dde.



*Good growth of wild cherry, after four years with total weed control through the use of herbicides (left). Poor growth of wild cherry, after four years with no weed control (right). (Photos: Forestry Commission)*

Mae ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth wedi dangos bod angen chwynnu o leiaf 1m i bob cyfeiriad o amgylch coeden er mwyn iddi sefydlu'n briodol. Os yw'r tir wedi'i baratoi fel y cafodd ei grybwyll yn gynharach, ni ddylai fod angen chwynnu rhyw lawer yn ystod y sesiwn dyfu gyntaf oherwydd bydd y Gwaith sgriffio neu dwmpathu wedi lladd y llystyfiant.

Gellir rheoli glaswellt ar y tir neu laswellt sy'n ailymddangos erbyn diwedd y tymor drwy ddefnyddio tomwellt, chwynladdwr mewn priddoedd yn ystod misoedd y gaeaf, neu ei adael tan wanwyn/haf y flwyddyn ganlynol cyn cael gwared arno. Beth bynnag fo'ch dull, mae llwyddiant y coed yn dibynnu ar baratoi a chyflawni'r camau hyn yn effeithiol.

Rhaid ystyried 3 techneg sylfaenol

### Chwynnu mecanyddol – amaethu / chwynogli

- Nid oes angen sgiliau arbennig ar eu cyfer

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

- Effeithiol
- Angen gwneud hyn sawl gwaith ym mhob tymor
- Anodd mynd yn agos at y coed heb eu difrodi

## Chwynnu cemegol – chwynladdwyr

- Cymharol rad
- Effeithiol iawn os yw'n cael ei ddefnyddio'n briodol ar yr adeg gywir
- Bydd angen diogelu'r rhan fwyaf o goed rhag chwistrell y chwynladdwyr
- Dim ond cemegau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer coetiroedd y cewch eu defnyddio

## Tomwelltoedd – tomwellt organig neu fatiau plastig/ffabrig

- Effeithiol, ond gall llygod dŵr sy'n nythu y tu fewn neu o dan y tomwellt ddifrodi'r bonion isel. Gall difrod difrifol ladd y coed.
- Rhaid i domwelltoedd organig fod wedi pydru'n sylweddol
- Mae angen gosod a chlymu'r matiau'n gywir
- Tomwelltoedd llac e.e. hwyrach y bydd angen ychwanegu at fater organig weithiau

**Ni fydd torri'r chwyn yn gweithio. Nid yw'n helpu'r coed a gall beri i'r chwyn dyfu hyd yn oed yn gyflymach. Bydd angen i chi ddewis un dull neu gyfuniad sy'n eich galluogi i gadw at unrhyw gyllideb neu amserlen.**

## 9. Beth os yw rhai o'r coed yn marw?

Anaml y bydd pob coeden yn goroesi, ond rydych am i'ch coetiroedd lwyddo a bydd cytundeb y cynllun grant yn mynnu bod nifer penodol o'r coed yn goroesi. 'Ailosod' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer disodli'r coed sy'n marw. Mae cynllunio'n dda, yn ogystal â phlannu digon o goed yn ofalus ac yn gywir yn y lle cyntaf, yn mynd i fod yn rhatach bob amser na disodli coed marw. Fodd bynnag, os oes angen i chi ailblannu coed, mae'n hollbwysig eich bod yn gwneud hynny gan fod llwyddiant eich prosiect yn dibynnu ar niferoedd digonol o goed.

Cadwch lygad ar eich coed yn ystod yr haf cyntaf. Gofynnwch am gyngor ar unwaith os yw'n ymddangos fel pe bai llawer ohonynt yn marw. Os yw popeth yn edrych fel y dylai, canolbwyntiwch ar chwynnu a diogelu. Mae'n haws sylwi ar goed marw a chadw llygad ar chwyn sy'n tyfu yng nghanol yr haf a dechrau'r gaeaf. Felly, gofalwch eich bod yn astudio'r coed ar yr adegau hyn. Gallwch wedyn baratoi i ddisodli'r rhai a gollwyd yn ogystal â

## Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

---

gwaith chwynnu'r tymor nesaf. Yn ystod yr ail a'r trydydd haf, cyfrwch unrhyw goed marw a threfnwch archeb gyda'r blanhigfa er mwyn plannu yn y tymor nesaf.

Gofynnwch am gyngor proffesiynol os yw'r canlynol yn digwydd cyn gwario unrhyw arian ar goed newydd:

- Os yw dros 20% o'ch coed wedi marw
- Os yw'r coed sydd wedi marw o'r un rhywogaeth
- Os yw'r marwolaethau mewn un man penodol

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

## Atodiadau

### *Atodiad 1 – Manyleb Ffensio Glastir ar gyfer Creu Coetiroedd*

Rhaid i bren ffensys fod wedi'i wneud o bren caled o goetiroedd Cymru neu bren meddal sydd wedi'i drin dan wasgedd. Efallai y bydd eich swyddog project yn gallu darparu rhestr o ffynonellau o bren caled Cymreig a/neu bren meddal sydd wedi'i drin dan wasgedd. Mae angen i bob pren a ddefnyddir allu cael ei ddefnyddio am o leiaf 10 mlynedd.

Peidiwch â defnyddio llwyni coed fel pyst tynhau neu ffensio nac ychwaith i gynnal weiren, stwffwl neu rwydi ffensys.

Rhaid i bren, weiren llinell, rhwydi a stwffwlau ffensys a ddefnyddir i adeiladu rhesi o ffensys cymeradwy gynnwys deunyddiau newydd bob amser. Mae'r taliadau safonol yn cynnwys lwfans i ddatgymalu, tynnu a gwaredu ffensys diffaith yn briodol. Rhaid i'r holl ddeunyddiau a safonau adeiladu gydymffurfio hefyd â'r manylebau manwl canlynol yn ogystal â Safonau Prydeinig 1722 a 4102.

Rhaid i byst tynhau fod o leiaf 12.5 cm ar draws ac o leiaf 2 fetr o hyd gyda metr ohono o dan y ddaear oni bai y cytunwyd fel arall gyda Swyddog y Prosiect. Rhaid gosod pyst tynhau y naill ochr i res y ffens a phob 100 metr yn y canol yn ogystal ag wrth bob newid cyfeiriad llorweddol neu fertigol.

Rhaid gosod pyst tynhau ar ddiwedd rhes y ffens ac wrth bob newid mewn goleddf a chyfeiriad. Rhaid i ddiamedr pob postyn fod o leiaf 6.5 cm a rhaid iddynt gael eu cynnal gan blât sylfaen neu bostyn rhyngol mewn man addas.

Rhaid i ddiamedr y pyst rhyngol fod o leiaf 6.5 cm (pyst crwn a phren wedi'i lifio) ac o leiaf 1.7 metr o hyd. Mae pyst hanner crwn yn dderbyniol cyn belled eu bod yn o leiaf 6.5 cm o hyd o bwynt canolog yr ochr a lifiwyd i'r pwynt canolog ar yr ochr crwn.


Rhaid gosod pyst rhyngol hyd at 3 metr oddi wrth ei gilydd. Rhaid gosod pob weiren ar y pyst â stwffwlau galfanedig a rhaid i'r weiren ar y brig fod o leiaf 1.05 metr o'r llawr.

Rhaid diogelu holl rwydi stoc drwy galfaneiddio a rhaid defnyddio o leiaf un weiren llinell ar ben y rhwydi. Rhaid i'r weiren ar y brig fod o leiaf 1.05 metr o'r llawr. Yn y mwyafrif o achosion lle mae defaid neu wartheg yn ymyrryd yn sylweddol, cynghorir i chi ychwanegu ail weiren ar ben y rhwydi yn ogystal â weiren ychwanegol ar y gwaelod.

Rhaid gosod pob rhwyd a weiren ar y pyst â stwffwlau galfanedig

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

Diagram o rwydi stoc



# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

## Atodiad 2 Archeb ar gyfer planhigion

<b>Rhyw-ogaeth</b>	<b>Coed fesul hectar</b>	<b>Maint</b>	<b>Gwreiddyn moel neu gynhwysydd</b>	<b>Adran</b>	<b>Maint yr ardal</b>	<b>%</b>	<b>Ardal fesul rhyw-ogaeth</b>	<b>Coed i'w harchebu</b>
e.e. onnen	2,500	20-40 cm	Y naill neu'r llall	1a	1.2 ha	30	0.36	900

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

## Atodiad 3 Trefn y tasgau

Gan ddibynnu ar gyflwr y safle a llwyddiant y plannu, hwyrach y bydd angen gwaith cynnal a chadw ar ôl blwyddyn 3

Tasg	Blwyddyn 1				Blwyddyn 2				Blwyddyn 3			
	Ion-Maw	Ebr-Meh	Gor-Med	Hyd-Rha	Ion-Maw	Ebr-Meh	Gor-Med	Hyd-Rha	Ion-Maw	Ebr-Meh	Gor-Med	Hyd-Rha
	Ardal dan sylw											
Paratoi'r tir												
Ffensio												
Archebu planhigion												
Plannu												
Chwynnu												
Arolygu coed a chyfrif colledion												
Ailosod (disodli colledion)												

# Arweiniad ar gyfer Plannu Coed mewn Coetiroedd

---

Dylai pob prosiect plannu newydd ystyried y canllawiau canlynol

**Canllawiau'r Comisiwn Coedwigaeth am Ddŵr Coedwigoedd**

**Canllawiau Archeolegol y Comisiwn Coedwigaeth**

**Canllawiau'r Comisiwn Coedwigaeth am Gadwraeth Coedwigoedd**

**Canllawiau'r Comisiwn Coedwigaeth am Hamdden mewn Coedwigoedd**

**Safon Coedwigoedd y DU**

**UKWAS**

Hwyrach y bydd angen caniatâd neu drwydded arnoch cyn gwneud rhai gwaith o dan eich Cytundeb Glastir. Ym mhob achos, cyfrifoldeb deiliad y cytundeb yw cysylltu â'r awdurdod perthnasol i gael y caniatâd neu'r drwydded angenrheidiol. Efallai y bydd eich swyddog project yn gallu darparu rhestr o ffynonellau o bren caled Cymreig. Ni all Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol os ydych yn methu â chael caniatâd neu drwydded o'r fath. Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu hystyried wrth ymgymryd â'r gwaith. Gall eich LANTRA lleol ac Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eich cynghori am hyn.